COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2023 15:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | P Ford | D M Hughes |
| M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | A Wathan | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D T Harrison a/ac RL Penhale-Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gail Biggs | Rheolwr Grŵp - Cymorth i Ddysgwyr |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Raeanna Grainger | Rheolwr Grŵp, IAA a Diogelu |
| Shagufta Khan | Arweinydd Gwaith Cymdeithasol - Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Louise Morgan | Rheolwr Tîm - Iechyd Meddwl Pobl Hŷn |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grwp, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau |

Aelod Cabinet

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

## 55. Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2022/23

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:<br><br>1. Bod cyflwyniadau'r adroddiad hwn yn y dyfodol hefyd yn cynnwys data o flynyddoedd blaenorol er mwyn galluogi'r Aelodau i wneud cymariaethau.<br><br>2. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru yn mynegi eu pryder ynghylch nifer y plant a theuluoedd mewn llety dros dro a'r angen am godiad i'r Lwfans Tai Lleol i gefnogi'r sector cymdeithasol drwy rentu preifat.<br><br>Gwybodaeth Ychwanegol<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>3. Nifer a chanran y staff a fynychodd yr hyfforddiant 2 ddiwrnod Arwyddion Diogelwch diweddar a nifer a chanran y staff sydd wedi tanysgrifio i'r garfan nesaf o hyfforddiant 5 diwrnod ym mis Ionawr 2024. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 6 Rhagfyr 2023 |

## 56. Y Rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>4. Mynegodd yr aelodau bryder nad yw lefel y gorwariant o £3.61m yn gynaliadwy a gofynnwyd am i'r |

| | |
|---|---|
| | arbedion effeithlonrwydd arfaethedig i leihau gwariant yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu fod ar gael i Banel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb.<br><br>5. Unrhyw enghreifftiau o arbedion posibl y gellid eu harchwilio lle mae posibilrwydd o ddyblygu darpariaeth ac adnoddau, er enghraifft, darparu cludiant i'r ysgol ar gyfer plentyn anabl mewn teulu â char Motability.<br><br>6. Ychwanegu Diweddariad o'r Rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu at eu Rhaglen Gwaith Cychwynnol ar gyfer 2024/25 i gynnwys data monitro perfformiad gan y Bwrdd Rhaglen a chanlyniadau'r cymorthfeydd canlyniadau sy'n dangos cyflawniadau i unigolion. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 6 Rhagfyr 2023 |

## 57. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 6 Rhagfyr 2023 |

I arsylwi trafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y dollen hon ar gyfer Rhan Un a’r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:31.